

## ❖ GWIR NEGES Y NADOLIG

Beth yw gwir neges y Nadolig? Mae'r Nadolig yn ymwneud â Duw y mae ei gariad yn angerddol tuag atom ni. Nid yw'n dymuno ein gadael ar ein cythlwng, yn unig ac yn wrthodedig. Nid yw am i ni gael ein llethu a'n llorio gan yr ergydion creulona a all ddod i'n rhan yn yr hen fyd hwn. Gall dynion a merched yn eu pechod, heb ronyn o Ysbryd Crist yn eu calonnau ac wedi eu meddiannu gan falchder a hunanbwysigrwydd, wneud eu gwaethaf yn ein herbyn.

Gellir crynhoi neges y Nadolig i'r hyn a ddywedodd yr angel wrth Joseff, "Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae'r hyn a genhedlwyd ynddi yn deillio o'r Ysbryd Glân. Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau." Ychwanega Efengyl Mathew, 'A digwyddodd hyn oll fel y cyflawnid y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd: "Wele, bydd y wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel", hynny yw, o'i gyfieithu, "Y mae Duw gyda ni".' (Mathew 1:20-23)

Yr hyn a ddaw i'r amlwg yn neges y Nadolig yw dyhead syfrdanol Duw i fod 'gyda ni', i fod gyda ni yn ein siomedigaethau, ein dagrau a'n galar, i fod gyda ni yn ein caethiwed i'n methiannau ac i'r pethau hynny sy'n peri diflastod i ni. Daeth Duw atom yn yr Arglwydd Iesu Grist yn ein hangen a'n tloidi arswydus, 'gyda ni' mewn gwirionedd, yn ei uniaethu ei hun â ni trwy fyw dan yr un amodau â ni. Ond y mae mwy yma. Daeth i'n gwaredu oddi wrth ein pechodau – rhai ddoe, heddiw ac yfory – daeth yn Fab dyn er mwyn ein gwneud yn feibion Duw.

Duw ymddangosodd yn y cnawd,  
Fe gafwyd Brawd yn Brynwr;  
Ni cholli'r neb, er gwaeled fo,  
A greddo i'r Gwaredwr.

Neges y Nadolig yw nad yw Duw am i ni fod ar ein pen ein hun, y mae'n dyheu i'n cyrraedd ni a bod gyda ni a diwallu'n anghenion dyfnaf ni. 'God, the most passionate of Lovers, wants to be Emmanuel' (William J. Bausch).

Er mwyn pwysleisio'r gwirionedd hwn rwyf am rannu stori wir â chi a ddarllenais yn ddiweddar. Hanesyn yw am faban – ei fam sy'n adrodd y stori – sy'n eglureb o gariad angerddol Duw tuag atom ni. Dyma'r stori yng ngeiriau'r fam:

Roedd hi'n ddydd Sul ac yn ddydd Nadolig. Roedd ein teulu ni wedi mwynhau gwyliau yn San Francisco gyda rhieni fy ngŵr, ond er mwyn i ni fod yn ôl yn y gwaith fore Llun bu'n rhaid i ni yrru'r daith hir o 400 milltir yn ôl i Los Angeles ar ddydd Nadolig.

Penderfynasom orffwys am ychydig ar y daith a chael cinio yn King City. Roedd y bwyty bron â bod yn wag a ni oedd yr unig deulu yno, a'n plant ni oedd yr unig blant.

Clywais Erik, fy mhlentyn blwydd oed, yn gwichian yn afieithus. '*Hithere*, ' bloeddiat yn ei lawenydd. '*Hithere*, ' y ddau air roedd e'n tybio oedd yn un. '*Hithere*, ' ac roedd e'n taro ei ddwylo blonegog yn erbyn fframyn metel ei gadair uchel. Roedd ei wyneb yn gyffro i gyd, ei lygaid ar agor fel soseri, a'i wên lydan yn datgelu ei ddeintgig – '*gums*' – diddannedd. Roedd e'n pwffian chwerthin ac yn ysgwyd yn ei gadair. Methais sylweddoli ar unwaith beth oedd achos yr hwyl byrlymus oedd wedi meddiannu Erik – yna gwelais y dieithryn truenus.

Hen racsyn o got roedd rhywun arall yn amlwg wedi ei phrynu ers oes pys, yn frwnt, seimllyd a threuliedig; trowsus llac, di-siâp; bysedd ei draed yn dod i'r golwg trwy weddillion esgidiau; crys â chramen yn gorchuddio'r goler; wyneb na welwyd mo'i debyg – '*gums*' diddannedd fel Erik.

'Hei boi bach. Rwy'n dy weld di '*buster*'. Sut wyt ti 'ngwas i?'

Cyfnewidiodd fy ngŵr a minnau edrychiad oedd yn gyfuniad o 'Beth wnawn ni?' a 'Druan ag ef'.

Daeth y weinyddes â'r bwyd ac Erik yn dal i bwffian chwerthin a chreu stŵr. Dyma'r hen foi yn dechrau chwarae pi-po gydag Erik o ben draw'r ystafell. Roedd Erik wrth ei fodd. Teimlai pawb arall yn anesmwyth. Roedd y dyn yn hanner meddw. Roedd fy ngŵr a minnau yn mynd yn fwy annifyr bob eiliad a dywedodd ein merch chwe blwydd oed hyd yn oed, 'Beth sy'n bod ar y dyn yna?'

Aeth Dennis fy ngŵr i dalu'r bil gan erfyn arnaf i afael yn Erik a'i gyfarfod yn y maes parcio. Offrymais saeth weddi, 'Arglwydd, plîs gad i fi fynd allan o'r lle yma cyn i'r dyn yna siarad â fi ac Erik.' Rhuthrais am y drws ond roedd hi'n amlwg fod gan yr Arglwydd ac Erik gynlluniau eraill.

Wrth agosáu at y dyn ceisiais droi fy nghefn er mwyn osgoi ei anadl ddrewllyd a brasgamu at y

drws. Wrth i mi wneud hynny nid oedd Erik yn tynnu ei lygaid oddi ar ei ffrind newydd ac wrth nesu ato mae'n ymestyn dros fy ysgwydd a'i ddwy fraich yn cymell y dieithryn i afael ynddo. Wrth droi i geisio dal fy ngafael yn dynnach yn Erik deuthum lygad yn llygad â'r hen ddyn.

Roedd Erik yn dyheu am gael mynd ato ac roedd llygaid yr hen ddyn yn erfyn, 'A wnewch chi adael i fi ddal eich baban?' Nid oedd rhaid i mi ateb oherwydd roedd Erik wedi gwthio ei hun o'm breichiau i freichiau'r hen ddyn. Roedd cariad y ddau tuag at ei gilydd mor syfrdanol o gryf.

Gorffwysodd Erik ei ben ar ysgwydd esgymog yr hen ŵr. Caeodd y dyn ei lygaid a sylwais ar y dagrau'n diferu dros ei ruddiau gwelw. Roedd ei ddwylo brwnt, geirwon yn dyner dyner yn magu'r un bychan ac yn mwytho ei gefn. Sefais mewn mudandod â rhyw arswyd sanctaidd wedi gafael ynof.

Agorodd yr hen ŵr ei lygaid gan edrych i fyw fy llygaid i. Dywedodd wrthyf yn gadarn, 'Cymerwch ofal o'r baban hwn.' Rhywsut neu'i gilydd a minnau yn nhwll fy ngwddf llwyddais i ddweud, 'Gwnaf'.

Yn anfodlon ac fel petai mewn poen estynnodd Erik yn ôl i mi gan ddweud, 'Bendith arnoch chi 'merch i. Rydych chi wedi rhoi anrheg Nadolig i mi.' Ni ddywedais ddim ond 'Diolch'.

Gydag Erik yn fy mreichiau rhedais at y car. Roedd Dennis yn methu deall pam roeddwn i'n llefain ac yn dal Erik mor dynn a pham roeddwn i'n dweud, 'Fy Nuw, maddau i mi. Maddau i mi.'

Hoffwn i awgrymu bod ystyr y Nadolig yn y stori fach yna. Erik yw Duw. Erik yw breichiau Duw, ei gariad angerddol tuag atom ni yn ein pechod a'n bywydau rhwygedig. Mynnodd Erik gofleidio'r person mwyaf hagr a hyll. Daeth baban Bethlehem i'r byd i'n cofleidio ninnau yn ein truenusrwydd. Dyhead Duw yw dod atom a bod gyda ni. Daeth atom, dyna paham yr ydym yn dathlu'r Nadolig. Mae addewid baban Bethlehem o'i bresenoldeb gyda ni bob amser hyd ddiwedd y byd yn eiddo i ni.

Os nad yw Duw gyda ni ac os nad yw Duw wedi cofleidio'n bywydau rhwygedig, gwae ni. Nid oes gobaith. Ond os ydym ni yn barod i blygu i dderbyn y Gwardwr fel y bugeiliaid gynt a llawenhau yn ein darganfyddiad ohono yna yr ydym wedi cael gafael yn ystyr y Nadolig. Fel y dywedodd Ben Davies yn ei emyn:

Gobaith plant pob oes,  
gobaith dynol-ryw,  
gobaith daer a nef  
ydyw cariad Duw.

Ymgorfforwyd y cariad hwnnw ym mhlentyn Bethlehem. Estynnodd ei freichiau yn blentyn i ddynion a merched ei gofleidio, estynnodd ei freichiau wedi tyfu'n ddyn ar groes o bren i'n cofleidio ni â'r cariad mwyaf rhyfedd fu erioed. Fel y dywedodd Pantycelyn yn ei emyn:

Fe roes ei ddwylo pur ar led,  
fe wisgodd goron ddrain  
er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn  
fel hyfryd liain main.

**Carol:** *Caneuon Ffydd* 452, 'Clywch lu'r nef yn seinio'n un'

**Andrew Lenny**